

1

Beth yw Grŵp Ymateb Uniongyrchol (IRG)?

Mae Grŵp Ymateb Uniongyrchol (IRG) yn darparu cefnogaeth er mwyn rheoli effaith digwyddiadau tyngedfennol. At ddiben y protocol diffinnir digwyddiad tyngedfennol fel:

- sydyn ac annisgwyl; a
- a arweiniodd at (neu a allai fod wedi achosi) marwolaeth neu niwed difrifol; a
- **sy'n cael effaith ar unigolion a/neu'r gymuned ehangach**; a
- lle mae ymateb effeithiol yn **gofyn am gydlynad amlasiantaeth** er mwyn rheoli bygythiad, risg a niwed.



Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Pryd mae angen Grŵp Ymateb Uniongyrchol amlasiantaeth ar ddigwyddiad tyngedfennol sy'n cynnwys plentyn?



7

I gael cyngor ac arweiniad ynghylch a ddylid ystyried digwyddiad ar gyfer IRG, cysylltwch â Bwrdd Diogelu Gwent ar: gwent Safeguarding@caerphilly.gov.uk.

Defnyddiwch y ddolen hon i gael mynediad at brotocol y Grŵp Ymateb Uniongyrchol

[Protocol Grŵp-Ymateb Uniongyrchol Plant](#)

6

Enghreifftiau o bryd mae IRG wedi'i gynnwll

- **Ymdrechion** hunanladdiad lle bydd effaith ehangach ar y gymuned, er enghraifft os oedd y plentyn yn aelod o glwb pêl-droed/rygbi lleol felly roedd ganddo gylch eang o ffrindiau.
- Digwyddiadau o ymdrechion hunanladdiad mewn lleoliadau ysgol, neu yng ngolwg y cyhoedd, megis ar bontydd lle gallai nifer o blant eraill fod wedi edrych ar y digwyddiad tyngedfennol.
- Ymosodiadau Cŵn Angheuol- oherwydd yr effaith ar dystion, ffrindiau, teulu, cymdogion a'r gymuned ehangach.

5

Beth yw pwrpas IRG?

Bydd yr IRG yn dod i gytundeb ar unrhyw wybodaeth i'w rhannu mewn sesiynau briffio gyda staff, pobl ifanc, a'r gymuned ehangach.

Dylai pob asiantaeth ystyried sut y gallant gyfrannu cymorth a chefnogaeth er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd naill ai eu hunain neu drwy alluogi asiantaethau eraill, cydlynwyr rhanbarthol neu sefydliadau trydydd sector i wneud hynny, gan sicrhau bod cynigion cyson o ran cymorth yn cael eu gwneud dro ar ôl tro.

Bydd CAMHS yn gostwng y trothwy ar gyfer eu gwasanaeth yn syth ar ôl y digwyddiad. Dylai proses brysennu ddigwydd er mwyn sicrhau bod ymateb cymesur yn cael ei gymryd.

2

Sut mae digwyddiad tyngedfennol yn dod yn gymwys ar gyfer IRG?

Dylid cynnull Grŵp Ymateb Uniongyrchol (IRG) ar gyfer pob hunanladdiad (amheuir neu ymddangosiadol) plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Ar gyfer digwyddiadau tyngedfennol eraill, dylid ystyried y meini prawf canlynol cyn cynnull IRG:

- A yw'r digwyddiad yn bodloni'r diffiniad digwyddiad tyngedfennol ym **mlwch 1**?
- A oes prosesau/polisïau eraill y dylid eu rhoi ar waith yn gyntaf? (ee, PRUDIC, ac ati).
- **Prif ffocws IRG yw rheoli effaith y digwyddiad tyngedfennol ar y rhai yr effeithir arnynt.**

Dylid ymgynnull yr IRG cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ond dim hwyrach na **dau ddiwrnod gwaith** ar ôl y digwyddiad critigol

3

Beth yw pwrpas IRG?

Bydd aelodau'r IRG yn nodi'r unigolion sydd agosaf at y person ifanc, a allai wynebu risg a'r rheiny yr effeithir arnynt gan y digwyddiad. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, teulu, ffrindiau, cariad, cydweithwyr, aelodaeth clwb, timau, staff, ac ati.

I'r rheiny sydd wedi'u nodi fel unigolion sydd wedi'u heffeithio, mae'n rhaid ystyried hunan-niweidio ac ymdrechion o hunanladdiad a amheuir brodyr a chwiorydd fel dangosydd o fregusrwydd teuluol.

Dylai'r asiantaethau sy'n cael eu gwahodd i fynychu'r IRG ystyried y canllawiau ynghylch Cylchoedd Bregus yma Adnabod clystyrau hunanladdiad ac ymateb iddynt: er mwyn helpu i adnabod y rhai sy'n cael eu heffeithio.

4

Beth yw pwrpas IRG?

Bydd pob asiantaeth yn rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r plentyn/person ifanc, eu teulu, ffrindiau, ac eraill (gan gynnwys, er enghraifft, tystion i'r digwyddiad) a allai fod angen cymorth aml-asiantaeth yn dilyn y digwyddiad tyngedfennol.

Bydd y grŵp yn nodi dyddiadau neu ddigwyddiadau arwyddocaol a allai gynnwys pen-blwyddi trawma a phrofedigaeth a dylid nodi lefel y risg ar gyfer pawb a drafodir.

Dylid cytuno ar unrhyw gymorth sydd ei hangen ar gyfer y rhai sy'n cael eu nodi fel rhan o'r broses hon, gan gynnwys cadarnhau pa asiantaeth/ gweithiwr fydd yn rhoi'r cymorth